# Cefnogi amgylcheddau glân

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu'r gofynion wrth gefnogi amgylcheddau glân mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys monitro glendid amgylcheddau a sicrhau bod ystafelloedd, mannau gwaith ac arwynebau'n lân.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi amgylcheddau glân
2. gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n rhan o’r gwaith hwn er mwyn cytuno ar sut a phryd y bydd amgylcheddau'n cael eu glanhau a'u monitro
3. cyflawni’r gwaith monitro y cytunwyd arno er mwyn cynnal amgylcheddau glân
4. sicrhau bod dulliau atal a rheoli heintiau, a chyfarpar diogelu personol, yn cael eu defnyddio
5. casglu'r adnoddau a'r cyfarpar glanhau angenrheidiol
6. cyflawni'r gweithgareddau glanhau y cytunwyd arnynt yn unol â gofynion y gweithle
7. gwneud yn siŵr bod adnoddau a chyfarpar glanhau sydd wedi cael eu defnyddio yn cael eu gwaredu, neu eu glanhau a'u storio
8. gwneud yn siŵr bod adnoddau a chyfarpar glanhau yn cael eu hailstocio ac yn cael eu gadael yn barod i'w defnyddio y tro nesaf
9. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi amgylcheddau glân
10. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi amgylcheddau glân, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y rhesymau pam mae angen glanhau amgylcheddau
2. sut mae cael gafael ar wybodaeth am sut a phryd y bydd amgylcheddau'n cael eu glanhau a'u monitro, a’i hadolygu
3. y mathau o adnoddau a chyfarpar sy’n cael eu defnyddio i lanhau amgylcheddau
4. sut mae paratoi a gwneud yn siŵr bod adnoddau a chyfarpar glanhau yn ddiogel ac yn barod i’w defnyddio
5. pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer paratoi, defnyddio a storio adnoddau a chyfarpar glanhau, a'r risgiau posibl os na chânt eu dilyn
6. y mathau o adnoddau a chyfarpar glanhau i’w defnyddio ar wahanol arwynebau, dodrefn neu ffitiadau
7. y mathau o arferion cynaliadwy y gellir eu defnyddio wrth lanhau amgylcheddau
8. pam mae angen ymgymryd ag arferion glanhau arbenigol mewn rhai amgylcheddau
9. ffynonellau haint posibl o amgylcheddau a sut mae lleihau'r risg
10. y dulliau atal a rheoli heintiau a’r cyfarpar diogelu personol sy’n cael eu defnyddio wrth lanhau amgylcheddau
11. sut a phryd y dylid defnyddio arwyddion rhybuddio am beryglon
12. sut mae atal a lleihau risgiau i eraill wrth lanhau
13. sut mae rhoi gwybod am ddiffygion neu beryglon mewn amgylcheddau, adnoddau neu gyfarpar glanhau a'r risgiau posibl os na roddir gwybod amdanynt
14. y cofnodion neu’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi amgylcheddau glân
15. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi amgylcheddau glân
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi amgylcheddau glân
17. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi gyda’r amgylchedd, adnoddau a chyfarpar
18. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi amgylcheddau glân, a sut i fynd i'r afael â hyn
19. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi amgylcheddau glân

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi amgylcheddau glân

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD232 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Amgylcheddau Glan, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |